**From:** [redacted]
**To:** Wylfa Newydd
**Subject:** Wylfa
**Date:** 31 December 2019 13:31:09

---

Annwyl Syr/Fadam,

Ysgrifennaf I ddatgan fy ngwrthwynebiad i'r cynllun I baratoi safle ar gyfer Wylfa B,(er nad oes neb wedi cytuno I ariannu y project?!.)Gall yr holl waith ar y tir a'r amgylched, heb son am y gymuned fod mor ddistriwiol a gwastraffus.

Rydwyf yn gwrthwynebu yn gryf yn erbyn y cais ac yn crefu y dyle chi ail ystyried y caniatad. Dros y blynydoedd mae fy nheulu a finnau wedi mwynhau prydferddwch a ffrwyth yr ardal arbennig yma.Rhaid peidio cymryd ei harddwch ai thirlun yn ganiataol-rhaid gwarchod rhan yma or Ynys fel pob rhan arall .

.Fuodd fy nhaid yn gweini ar stad cyfagos dros gan mlynedd yn ol a clywais llawer o straeon hanesyddol am amaeth a ffermio y tir.Finnau a fy nheulu yn cael gymaint o bleser yn hwylio,cerdded,gwylio adar ,ymweld a hen adeiladau o gwmpas yr ardal.Er fod yr Orsaf Bwer bresennol dim yn gweddu hefo'r olygfa , mae,erbyn hyn, yn ran o'n hanes.A gallwn ddal I fedru cerdded yr arfordir,gweld yr hen felin yn ei gogoniant a gerddi Castell yn y cefndir.Hefyd gweld fod yr Ymreodaliaeth yn gwerthfawrogi a gwarchod y fferm cyfagos.Gallwn hefyd gerdded ar draw Fae Cemlyn draw at yr hen Orsaf y Bad Achub ac astudio yr adar yn ei cynefin.Dyma gynefin eto sydd wedi ei chydnabod I fod yn bwysig I adar a bywyd gwyllt yr arfordir.

Yn wir mae yr ardal yma yn un o berlau Ynys Mon a Chymru! Credaf mai drwy gynllunio yn ofalus y mae yn bosib datblygu a gwneud Mon yn Fam I Gymru eto.Cynllunio a datblygu yr Ynys, gan werthfawrogi ei chrefderau naturiol.Daw pobl yma I fwynhau ei thraethau, ei hanes-twristiaeth yw y ffordd ymlaen.Dyma ddyfodol orau ein hynys.Nid Mon yw y lleoliad I Bwer Niwcliar fawr, gall gychwyn ar y fath fenter ddinistro yr Ynys,mewn gymaint o wahanol ffurf-mwy o drafnidiaeth trwm,busnesau bach yn dioddef,yr amgylchfyd yn cael ei difetha,cymunedau yn cael eu
hollti.

Dyma y cam cychwynnol,nid yw yn bosib cyfiawnhau fath chwalfa ar amgylchfyd mor arbennig ,yn enwedig os oes ansicrwyd am beth fydd yn cael ei adeiladu ar y safle yna yn y dyfodol?

Yn gywir,
Menna Jones